



Rhif Hysbysiad Preifatrwydd:	006
Dyddiad Llunio:	22/10/2020
Dyddiad Cyhoeddi:	
Rhif y Fersiwn:	1.0
Hunaniaeth y Ddogfen:	

Manylion Cyswllt:

Edrychwch ar y dudalen Dod o hyd i Ysgol ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili er mwyn cael manylion cyswllt ysgolion unigol:

<https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/Schools?lang=cy-gb>

Fel arall, mae'r llyfryn *Dechrau'r Ysgol* yn cynnwys manylion cyswllt holl ysgolion Caerffili

**Disgrifiad o'r Hysbysiad
Preifatrwydd:**

Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd pob ysgol yng Nghaerffili yn prosesu gwybodaeth bersonol am ddisgyblion a theuluoedd mewn perthynas ag Orlhain Cysylltiadau Covid-19.

Diben yr hysbysiad hwn

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn esbonio sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu gan ysgolion Caerffili a'r Awdurdod Addysg Lleol (AALI) yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, fel sefydliadau partner sy'n gweithio gydag eraill i gyflawni elfen olrhain cysylltiadau gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu GIG Cymru. Mae Hysbysiadau Preifatrwydd ar gyfer eich ysgol ar gael ar wefan yr ysgol neu ar gais o swyddfa'r ysgol.

Mae Orlhain Cysylltiadau yn ddull sylfaenol o ymdrin ag ymarfer iechyd y cyhoedd. Y nod yw diogelu iechyd y cyhoedd a chefnogi gwaith parhaus er mwyn reoli lledaeniad y coronafeirws drwy leihau nifer yr achosion eilaidd o glefyd heintus a chanlyniadau haint mewn achosion dilynol. Mae rhagor o wybodaeth am olrhain cysylltiadau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/olrhain-cysylltiadau-eich-cwestiynau>

Yn ogystal â rhesymau olrhain cysylltiadau, gallwn ni neu sefydliadau partner ddefnyddio eich gwybodaeth hefyd at y dibenion canlynol.

- Deall COVID-19 a risgiau i iechyd y cyhoedd, tueddiadau o ran COVID-19 a risgiau o'r fath, a rheoli ac atal lledaeniad COVID-19 a risgiau o'r fath
- Nodi a deall gwybodaeth am gleifion neu ddarpar gleifion sydd â COVID-19 neu sydd mewn perygl o gael hynny
- Darparu gwasanaethau i gleifion, clinigwyr, y gwasanaethau iechyd
- Ymchwil a chynllunio mewn perthynas â COVID-19 (gan gynnwys y posibilrwydd o gael gwahoddiad i fod yn rhan o dreialon clinigol)
- Monitro cynnydd a datblygiad COVID-19

Sut y byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth

Ffynhonnell a math yr wybodaeth sy'n cael ei phrosesu

Os ydych wedi derbyn prawf SARS-CoV-2 positif, efallai y byddwn yn casglu ac yn prosesu'r wybodaeth ganlynol amdanoch:

- ❖ eich enw, dyddiad geni, categori oedran, rhyw, a Rhif GIG
- ❖ cyfeiriad llawn (gan gynnwys cod post) a manylion cyswllt
- ❖ data anabledd, a ydych yn agored i niwed, a data ethnigrwydd
- ❖ cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol
- ❖ teitl eich swydd, man gwaith, rheolwr llinell a disgrifiad o'ch gwaith
- ❖ enwau, dyddiad geni, a manylion cyswllt y rhai yn eich cartref, ynghyd ag a oedden nhw'n bresennol yn ystod eich cyfnod heintus
- ❖ enwau a manylion cyswllt pobl eraill yr ydych chi wedi bod mewn cysylltiad â hwy yn ystod eich cyfnod heintus
- ❖ y lleoedd rydych chi wedi ymweld â nhw yn ystod eich cyfnod heintus
- ❖ unrhyw symptomau COVID-19 sydd gennychchi ac os ydych chi wedi mynd i'r ysbyty gyda'r symptomau hynny.

Efallai y byddwn ni'n casglu ac yn prosesu'r wybodaeth isod amdanoch chi os ydych chi wedi cael eich nodi fel un a allai fod wedi bod mewn cysylltiad ag unigolyn sydd wedi derbyn prawf SARS-CoV-2 positif yn ystod eu cyfnod heintus:

- ❖ eich enw, dyddiad geni, rhyw a Rhif GIG
- ❖ cyfeiriad llawn (gan gynnwys cod post) a manylion cyswllt e-bost
- ❖ data anabledd, a ydych yn agored i niwed, a data ethnigrwydd
- ❖ teitl eich swydd, man gwaith, rheolwr llinell a disgrifiad o'ch gwaith
- ❖ enwau, dyddiad geni, a manylion cyswllt y rhai yn eich cartref
- ❖ unrhyw symptomau COVID-19 sydd gennych ac os ydych chi wedi mynd i'r ysbyty gyda'r symptomau hynny.

Ffynhonnell y data personol

Darperir rhywfaint o'r wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei ei prosesu i ni'n uniongyrchol oddi wrthy ch chi, neu eich cynrychiolydd, er mwyn cefnogi'r Awdurdod Lleol i weithredu gwasanaeth Orlhain Cysylltiadau COVID-19 (gan gynnwys rhoi cyngor a chymorth i'r rhai sydd wedi bod mewn cysylltiad ag unigolyn sydd wedi derbyn prawf SARS-CoV-2 positif).

Rydyn ni hefyd yn derbyn gwybodaeth bersonol yn anuniongyrchol o'r ffynonellau isod dan y senarios canlynol:

- ❖ *Os ydych wedi derbyn prawf SARS-CoV-2 positif:*
byddai eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad a manylion cyswllt wedi cael eu rhoi i ni gan y tîm Orlhain, Tracio a Diogelu yn dilyn hysbysiad gan eich canolfan brofi a weithredir gan un o'r sefydliadau partner.
- ❖ *Os nodwyd eich bod chi wedi bod mewn cysylltiad ag unigolyn sydd wedi cael prawf SARS-CoV-2 positif:*
byddai eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad a manylion cyswllt wedi cael eu rhoi i ni gan yr unigolyn hwnnw, eu cynrychiolydd, neu'r tîm Orlhain, Tracio a Diogelu.

Os hoffech chi ragor o wybodaeth am ffynhonnell yr wybodaeth hon, cysylltwch â'r ysgol.

Pam yr ydym yn casglu a defnyddio eich gwybodaeth

Mae ysgolion Caerffili yn casglu ac yn prosesu rhywfaint o'r data personol a ddisgrifir uchod fel rhan o'u trefniadau busnes arferol er mwyn gweinyddu'r addysg y mae'n ei darparu i blant a phobl ifanc. Er enghraifft:

- darparu gwasanaethau addysgol i unigolion;
- monitro ac adrodd ar gynnydd addysgol disgyblion/plant;
- darparu gwasanaethau lles, gofal bugeiliol ac iechyd;
- rhoi cymorth ac arweiniad i blant a phobl ifanc, eu rhieni a gwarcheidwaid cyfreithiol;

Cesglir gwybodaeth ychwanegol, fel y lleoedd yr ydych wedi ymweld â hwy a manylion pobl eraill yr ydych wedi bod mewn cysylltiad â hwy, os yw disgybl, aelod o staff, neu aelod o'r teulu naill ai wedi derbyn prawf SARS-CoV-2 positif, neu wedi cael eu nodi fel rhai a allai fod mewn cysylltiad ag unigolyn sydd wedi cael prawf SARS-CoV-2 positif.

Mae gan bob ysgol unigol y rôl a'r cyfrifoldebau canlynol i gefnogi profion olrhain cysylltiadau Covid-19 disgyblion a staff:

- ❖ Cynnal a bod yn gyfrifol am y gofal i'w dysgwyr ac aelodau'r staff drwy gydol y broses profi
- ❖ Cytuno ar fecanwaith mewnol ar gyfer rheoli a monitro atgyfeiriadau i'r Awdurdod Addysg Lleol (AALI)
- ❖ Bod yn gyfrifol am reoli'r gwaith o gasglu profion Dyfais Llif Ochrol (DLIO) i unigolion a hoffai gymryd rhan mewn profion rheolaidd.
- ❖ Ymgymryd ag asesu a brysbennu eu dysgwyr ar y cyd â'r rhiant/gofalwr neu'r dysgwr (os yw'n briodol i'w hoedran) a barnu eu bod yn gymwys i gael eu hynysu/profi os ydynt yn bodloni'r diffiniad o achos posibl o COVID-19.
- ❖ Cefnogi timau olrhain cysylltiadau drwy ddarparu cyngor cychwynnol ar hunanyysu ac o ble gall unigolion ddod o hyd i ragor o wybodaeth am iechyd a lles.
- ❖ Rhowch wybod i'w dysgwyr a'u staff am y defnydd o'u gwybodaeth bersonol ar gyfer y prawf DLIO. Dylai hyn gynnwys:
 - y bydd eu gwybodaeth yn cael ei rhannu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn prosesu canlyniad y prawf a gweithredu'n unol â hynny;
 - bod canlyniadau profion yr unigolyn yn cael eu rhannu â'u hysgol, fel y gallant weithredu trefniadau lleol os bydd prawf SARS-CoV-2 positif.
- ❖ Cyflenwi unigolion, a hoffai gymryd rhan mewn profion rheolaidd, gyda Dyfeisiau Llif Ochrol a chadw cofnod o'r pecynnau profi a ddsbarthwyd.
- ❖ Er mwyn cynnal cofrestr canlyniadau COVID-19 at ddibenion gweithredu trefniadau lleol, lle yr adroddir am brofion positif.

Rydym hefyd yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion o dan Adran 537A o Ddeddf Addysg 1996 ac adran 83 o Ddeddf Plant 1989. Rydym hefyd yn cydymffurfio ag Erthygl 6(1)(c) ac Erthygl 9 (2)(b) o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC).

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016, rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau.

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol at ddibenion olrhain contractau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) yw:

6 (1) (e) mae angen prosesu er mwyn cyflawni tasg a wnaed er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolwr

Darperir y dasg gyhoeddus o dan y canlynol:

- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd (Rheoli Gwybodaeth i Gleifion) 2002
- Deddf Coronafeirws 2020
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai mathau o wybodaeth o'r enw 'categoriâu arbennig o ddata personol', sy'n cynnwys:

- Tarddiad hil neu ethnig
- Credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg
- Barn wleidyddol
- Iechyd neu gyflwr meddwl neu gorfforol
- Data genetig
- Data biometrig (lle caiff ei ddefnyddio at ddibenion adnabod)
- Bywyd neu gyfeiriadedd rhywiol
- Aelodaeth o undeb llafur

Mae deddfwriaeth Diogelu Data hefyd yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer data personol mewn perthynas â honiadau, achosion, canlyniadau a dedfrydau troseddol.

Os yw unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniadau hyn, rhaid nodi'r amod ychwanegol o Erthygl 9 er mwyn prosesu'r mathau hyn o wybodaeth, gan ystyried darpariaethau ychwanegol Deddf Diogelu Data 2018. Amlinellir hyn isod:

Erthygl 9(2)(i) ar gyfer data categori arbennig – *mae prosesu'n angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd, megis diogelu rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd, neu sicrhau safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd ac o ddyfeisiau meddygol, ar sail cyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaethau sy'n darparu mesurau addas a phenodol er mwyn diogelu hawliau a rhyddid gwrthrych y data.*

Gall erthyglau perthnasol eraill gynnwys:

Erthygl 9(2)(g) ar gyfer data categori arbennig – *mae prosesu'n angenrheidiol am resymau o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol ar sail cyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaethau; ac Erthygl 10 ar gyfer data troseddol – pan awdurdodir y prosesu gan gyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth.*

Erthygl 9(2)(h) ar gyfer data categori arbennig – *mae prosesu'n angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, er mwyn asesu gallu'r cyflogai i weithio, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol ar sail cyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth, neu'n unol â chontract gyda gweithiwr iechyd proffesiynol ac yn amodol a yr amodau a mesurau diogelu y cyfeirir atynt ym mharagraff 3.*

Y gyfraith Aelod-wladwriaeth berthnasol yw Deddf Diogelu Data 2018, ac mae Atodlen 1, Rhan II, 6(1) yn ymdrin â'r prosesu hwn.

Bodlonir yr amod hwn os yw'r prosesu –

- (a) yn angenrheidiol at ddiben a restrir yn is-baragraff (2), a*

(b) yn angenrheidiol am resymau sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd.

(2) Y dibenion hynny yw –

(a) arfer swyddogaeth a roddir i berson gan ddeddfiad neu drefn y gyfraith;

(b) arfer un o swyddogaethau'r Goron, un o Weinidogion y Goron neu adran y llywodraeth.

Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

Y Rheolwr Hunaniaeth Data a'r Swyddog Diogelu Data

Er eich gwybodaeth, y Rheolwr Data yw'r ysgol yr ydych chi neu'ch plentyn yn ei mynychu.

Mae'r Swyddog Diogelu Data wedi'i gontractio gan yr ysgol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r ysgol ar 01443 864049, neu drwy e-bost:

diogeludata@caerffili.gov.uk

Y sefydliadau sy'n prosesu eich data personol

Gall eich data gael ei brosesu gan un neu fwy o'r sefydliadau a restrir isod, yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw a'r cyswllt sydd gennych drwy'r gwasanaeth olrhain cysylltiadau.

- Pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru
- Pob un o'r 7 Bwrdd Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Felindre (drwy Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru)
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru

Mae gan bob un o'r sefydliadau hyn statws '**Cyd-reolwr Data**' ac maent oll yn gyfrifol am y data personol y maent yn ei brosesu o ganlyniad i hynny. Maent i gyd yn rhan o gytundeb ledled Cymru sy'n nodi sut a pham y maent yn prosesu'r wybodaeth honno.

Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt eich Bwrdd Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol eraill drwy ymweld â: <https://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/cyfeiriadur>

<https://www.wlga.cymru/welsh-local-authority-links>

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu cymorth, cyngor ac arweinyddiaeth arbenigol ar lefel genedlaethol a gefnogir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, sy'n darparu'r llwyfan digidol. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymdrin â'ch data personol, neu sut maent yn gweithio gyda phroseswyr data, gweler eu Hysbysiad Preifatrwydd sydd ar-lein yma: <https://icc.gig.cymru/defnydd-y-safle/hysbysiad-preifatrwydd/>

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am sut mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn ymdrin â'ch data personol, neu sut rydym yn gweithio gyda phroseswyr data, gweler ein prif Hysbysiad Preifatrwydd sydd ar-lein yma: <https://igdc.gig.cymru/defnyddior-wefan/polisi-preifatrwydd/>

Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth fydd yr ysgol yr ydych chi neu'ch plentyn yn ei mynychu a'r Awdurdod Lleol.

Manylion o ran unrhyw rannu o'ch gwybodaeth gyda sefydliadau eraill


Efallai y bydd yn ofynnol i ni rannu gwybodaeth benodol am ddisgyblion gyda sefydliadau penodol, ond dim ond gyda rheswm sydd wedi'i ddiffinio'n glir a sail gyfreithiol briodol o dan gyfraith diogelu data.

Rydym bob amser yn sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu'n ddiogel.

Sefydliad	Rheswm	Sail Gyfreithlon
<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili</p> <p>(gan gynnwys y timau Orlhain Cysylltiadau, Addysg ac Iechyd yr Amgylchedd)</p>	<p>Cefnogi gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu GIG Cymru i reoli lledaeniad y coronafeirws. Darperir y gwasanaeth gan nifer o bartneriaid yn y sector cyhoeddus sy'n gweithio gyda'i gilydd, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol, a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae'n ofynnol i ni rannu eich enw, dyddiad geni, a manylion cyswllt (gan gynnwys eich cyfeiriad).</p>	<p>Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 RhDCC) o dan Reoliad 12 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 sy'n ei wneud yn ofynnol i fesurau rhesymol gael eu cymryd er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws ar safleoedd sy'n agored i'r cyhoedd ac ar unrhyw safle lle mae gwaith yn digwydd, yn ogystal â lleihau lledaeniad y coronafeirws gan y rhai sydd wedi bod ar y safle.</p> <p>https://llyw.cymru/cymryd-pob-mesur-rhesymol-i-leihau-risg-o-ddod-i-gysylltiad-ar-coronafeirws-mewn-gweithleoedd</p>
<p>Aneurin Bevan University Health Board</p>	<p>Sicrhau y gallant ymgymryd â'r gweithgareddau Profi, Orlhain a Diogelu angenrheidiol a chynnal ymchwil a chasglu gwybodaeth ystadegol am y coronafeirws.</p>	<p>Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, tasg gyhoeddus, neu fuddiant cyfreithlon (Erthygl 6 RhDCC y DU)</p>
<p>Iechyd Cyhoeddus Cymru</p>		<p>Mae'n angenrheidiol am resymau o ddiddordeb cyhoeddus ym maes iechyd y cyhoedd (Erthygl 9 RhDCC y DU)</p>

Cyfeiriwch at y dudalen Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer ysgolion Caerffili a grybwyllwyd uchod i gael rhagor o wybodaeth am ba ddata personol y mae ysgolion Caerffili yn rhannu â sefydliadau at ddibenion addysgol.

Proses Brofi Reolaidd ar gyfer Ysgolion



Ceisiadau am wybodaeth

Gall yr holl wybodaeth a gofnodir sydd gan yr ysgol fod yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data (Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016 a Deddf Diogelu Data 2018).

Os yw'r wybodaeth a ddarperir gennych yn ddarostyngedig i gais o'r fath, lle y bo'n bosibl, byddwn yn ymgynghori â chi o ran ei rhyddhau. Os ydych yn gwrthwynebu datgelu'ch gwybodaeth, byddwn yn atal eich gwybodaeth os yw'r deddfwriaeth berthnasol yn caniatáu hynny.

Am ba mor hir byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Manylion y cyfnod cadw

Mae ysgolion Caerffili yn cadw data personol yn ddiogel am yr amser penodol a nodir yn ein hamserlen cadw data. Mae data personol a gasglwyd i ddechrau at ddibenion addysgol yn cael ei gadw gan bob ysgol unigol, yn unol â chanllawiau'r *Pecyn Cymorth Rheoli Gwybodaeth i Ysgolion* a grëwyd gan y Gymdeithas Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion:

[Pecyn Cymorth Ysgolion IRMS - y Gymdeithas Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion](#)

Caiff y data personol a rannwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei storio'n ddiogel a'i gadw dim ond am gyn belled â bod ei angen. Felly, bydd data'n cael ei ddileu/dinistrio'n ddiogel pan nad oes ei angen mwyach. Mae cyfnodau cadw Olrhain Cysylltiadau fel a ganlyn:

- Bydd y data a gesglir ar gyfer unigolion sy'n profi'n bositif â COVID-19 yn cael ei gadw am 7 mlynedd.
- Bydd y data a gesglir ar gysylltiadau pobl â COVID-19, ond nad oes ganddynt unrhyw symptomau, yn cael ei gadw am y cyfnod cadw gofynnol o 5 mlynedd.
- Bydd canlyniadau profion a gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag unrhyw amodau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19 hefyd yn ar eich cofnod iechyd electronig am gyfnod hirach, yn unol ag amserlenni cadw arferol y GIG.

Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

Eich hawliau o dan gyfraith diogelu data

Mae deddfau Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i wrthrychau data (y rhai y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hwy), sy'n cynnwys:

- **Yr hawl i gael gwybod** sut mae data personol yn cael ei gasglu, ei storio, ei reoli, ei ddiogelu a'i brosesu.
- **Hawl mynediad** i ofyn am gopi o wybodaeth personol a gedwir ohonoch chi eich hun. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol y gellir weithiau atal gwybodaeth yn gyfreithlon.
- **Yr hawl i gywiro** data personol sy'n anghywir neu anghyflawn.
- **Yr hawl i ddileu** lle mae gennych yr hawl i ddileu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ddata personol y mae'n rhaid ei gadw yn ôl y gyfraith.
- **Yr hawl i gyfyngu**, sy'n eich galluogi i gyfyngu ar y ffordd rydym yn defnyddio eich data personol mewn rhai amgylchiadau.
- **Yr hawl i hygludedd** sy'n rhoi'r hawl i unigolyn dderbyn copïau o ddata a ddarperir i reolwr mewn fformat cludadwy.
- **Yr hawl i wrthwynebu** prosesu eich data personol; a'r un olaf yw'r
- **Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.**

Mae gan blant a phobl ifanc yr un hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys hawl gyffredinol i gael mynediad at ddata personol a gedwir amdanynt gan sefydliad. Fel arfer, ystyrir bod plentyn neu berson ifanc yn ddigon aeddfed i ddeall ei hawliau mynediad o 12 oed neu drosodd. Felly, dylai'r plentyn neu'r person ifanc naill ai gyflwyno cais am wybodaeth ei hun yn uniongyrchol i'r ysgol, neu ddarparu llythyr o awdurdod i roi caniatâd trydydd parti (h.y. rhiant neu ofalwr) i weithredu ar ei ran. Byddai angen i riant sy'n gofyn am wybodaeth ar ran plentyn ddarparu prawf hunaniaeth a Chyfrifoldeb Rhiant.

I weithredu'ch hawliau, cysylltwch â'r ysgol yn uniongyrchol fel y manylir ar frig y ddogfen hon. Bydd copi o unrhyw gais hawl unigol a'ch ymateb yn cael ei gadw am 3 blynedd.

Gweithdrefn Gwyno

Os oes gennych unrhyw bryderon am ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol, gallwch wneud cwyn drwy gysylltu â'r sefydliad perthnasol, fel y nodir uchod.

Os ydych yn parhau'n anhapus, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r ysgol ar 01443 864322 / diogeludata@caerffili.gov.uk

Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwylio'r Ddeddf Diogelu Data yn y DU, i asesu a yw'r prosesu o wybodaeth bersonol yn debygol o gydymffurfio â darpariaethau ein cyfrifoldebau deddfwriaethol ai peidio. Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael yma: www.ico.org.uk.

Gallwch gysylltu â Swyddog y Comisiynydd Gwybodaeth gan ddefnyddio'r cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru Ail Lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Rhif Ffôn 0330 414 6421
E-bost: wales@ico.org.uk